


RHAGLEN CYNHADLEDD IAITH A BUSNES

Prifysgol Abertawe
Campws y Bae

24 MEHEFIN 2022



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

CYMRAEG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

RHAGLEN CYNHADLEDD IAITH A BUSNES 2022

Dydd Gwener 24 Mehefin 2022

Prifysgol Abertawe, Campws y Bae,
Ffordd Fabian, Abertawe SA1 8EN



CYFARWYDDIADAU CYRRAEDD A PHARCIO:

Cyrraedd Campws y Bae

Mae Campws y Bae wedi'i leoli ar Ffordd Fabian (A483). Wrth deithio ar yr M4, gadewch y draffordd yng Nghyffordd 42 a dilynwch yr arwyddion i Abertawe ar yr A483 (Ffordd Fabian). Mae Campws y Bae ar ochr chwith Ffordd Fabian, a rheolir y fynedfa gan oleuadau traffig.

Parcio i ymwelwyr

Mae parcio i ymwelwyr ar gael ar gampws y Bae. Wrth droi fewn i'r campws ar Ffordd Fabian, throwch i'r chwith i gyrraedd y maes parcio. Mae angen talu am barcio, gyda pheiriannau yn cymryd arian parod yn unig, ond mae'n bosib hefyd i dalu trwy ddefnyddio'r ap PayByPhone. Mae parcio yn costio £3.65 (£3.95 gyda'r ap) i barcio trwy'r dydd rhwng 8yb a 6yh. Ceir hefyd gyfleuster Parcio a Theithio mawr ar Ffordd Fabian, sydd heb fod ymhell o Campws y Bae.

Parcio i staff Prifysgol Abertawe

Mae maes parcio i staff Prifysgol Abertawe wedi'i leoli ar ochr orllewinol y campws. Wrth droi i mewn i'r campws ar Ffordd Fabian, dilynwch y ffordd i'r dde ac ewch syth ymlaen i ddilyn y ffordd tua'r diwedd, yna dilynwch y ffordd i'r chwith a throwch i'r dde i mewn i faes parcio staff. Mae'n bosib parcio gyda thrwydded staff, neu mae'n bosib talu am barcio wrth y peiriannau arian, neu dros app PayByPhone. Mae parcio yn costio £3.65 (£3.95 gyda'r app) i barcio trwy'r dydd rhwng 8yb a 6yh.

Lleoliad y Gynhadledd

Cynhelir y gynhadledd yn adeilad Y Neuadd Fawr sydd yng nghanol Campws y Bae yn agos at y traeth. Bydd y gynhadledd yn ystafell GH049 yn Y Neuadd Fawr. Bydd cinio ar gael yn ystafell GH014. Mae map o'r campws ar gael yma:

<https://www.swansea.ac.uk/media/baycampusmap.pdf>. Y Neuadd Fawr yw rhif 6 ar y map.

AMSERLEN

10:00 - Coffi / Ymgynnull

10:30 - Croeso gan Yr Athro Elwen Evans CF, Dirprwy Is-ganghellor a Deon Gweithredol, Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Abertawe

10:45 - Siaradwr gwadd: Mari Stevens, Prif Swyddog Marchnata, **Ogi: Hunaniaith: rôl y Gymraeg wrth farchnata yng Nghymru – ac ar draws y byd**

11:15 - Sesiwn 1

leithoedd Lleiafrifol a Marchnata Lle (Cadeirydd: Llŷr Roberts)

- *Cyfraniad leithoedd Lleiafrifol at greu Brand Unigryw wrth Farchnata Lle* - Rhydian Harry (Prifysgol Abertawe)
- *Pop Up Gaeltacht: adfywio dinesig ac ieithyddol?* - Dr Osian Elias (Prifysgol Abertawe)
- *Gwnaed yn Llydaw: Brand rhanbarthol. Model i Gymru?* - Dr Robert Bowen (Prifysgol Abertawe/Caerdydd)

12:30 - Cinio (Ystafell GH014)

13:15: Siaradwr gwadd: Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Cyfarwyddwr, Canolfan Uwchefrydiad Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru: **Gwersi Basgeg - Cymharu Cymru a Gwlad y Basg**

13:45 - Sesiwn 2

Y Cyd-destun Cymreig (Cadeirydd: Dr Robert Bowen)

- *Dylanwad polisiâu, gweithgareddau a thueddiadau economaidd ar y Gymraeg* - Elen Bonner (Prifysgol Bangor)
- *Cyflwyniad i Farchnata: datblygu gwerslyfr Cymreig yn ogystal â Chymraeg* - Llŷr Roberts (Prifysgol De Cymru)
- *Defnyddio cwmnïau Cymreig ar gyfer dysgu dulliau ymchwil a sgiliau ymarferol i fyfyrwyr busnes Cymraeg a rhyngwladol* - Yr Athro Eleri Rosier (Prifysgol Caerdydd) a Dr Rhian Thomas (Prifysgol De Cymru)

15:00 - Panel Trafod (Cadeirydd: Yr Athro Eleri Rosier)

15:30 - Gorffen

BYWGRAFFIADAU'R CYFLWYNWYR:

Yr Athro Elwen Evans, CF

Prifysgol Abertawe



Bywgraffiad

Mae'r Athro Elwen Evans CF yn Ddirprwy Is-ganghellor ac yn Ddeon Gweithredol ar gyfer Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Mae hefyd yn gyfrifol am bortffolio Iaith a Diwylliant Cymraeg y Brifysgol.

Astudiodd Elwen y Gyfraith yng Ngholeg Girton Caergrawnt gan raddio gyda dosbarth cyntaf dwbl: M.A. (Cantab). Fe'i penodwyd yn Gwnsler y Frenhines yn 2002.

Mae ei gwaith wedi cynnwys llawer o achosion difrifol, cymhleth, sensitif â phroffil uchel, megis arwain y tîm erlyn yn achos April Jones a'r tîm amddiffyn yn achos trychineb Glofa Gleision. Mae hi'n Gofiadur Llys y Goron ers cael ei phenodi yn 2001. Yn 2018, cafodd ei chynnwys ymhlith y 10 uchaf ar restr yn dathlu 100 o fenywod mwyaf ysbrydoledig Cymru. Ymunodd Elwen â Phrifysgol Abertawe yn 2015 pan gafodd ei phenodi'n Bennaeth Coleg y Gyfraith a Throseddeg.

Mari Stevens

Cwmni Ogi

@MariSian



Bywgraffiad

Mari yw Prif Swyddog Marchnata'r cwmni band-eang newydd i Gymru, [Ogi](#).

Cyn hynny, hi oedd Cyfarwyddwr Marchnata brand Cymru lle y bu'n arwain ar holl waith marchnata Croeso Cymru a Masnach a Buddsoddi Cymru yn fyd-eang. Bu'n gyfrifol am drawsnewid brand marchnata Cymru, gan ennill gwobrau rhyngwladol, ac am hyrwyddo Cymru mewn digwyddiadau fel Cynhadledd NATO Cymru, Pencampwriaethau'r Euros 2016 a Chwpan Rygbi'r Byd yn Tokyo yn 2019. Bu Mari hefyd yn Bennaeth Marchnata gyda Dŵr Cymru a BBC Cymru Wales.

Rhydian Harry

Prifysgol Abertawe



Bywgraffiad

Mae Rhydian yn farchnatwr profiadol â thros 20 mlynedd o brofiad ym maes marchnata a chyfathrebu. Bu'n gweithio ym maes addysg uwch ers 2012, gan ddarlithio mewn Rheoli Marchnata Cymhwysol, Rheoli Brand, Marchnata Creadigol, Marchnata Rhyngwladol, Rheoli Marchnata a Marchnata Strategol. Fel Cymro Cymraeg mae gan Rhydian ddiddordebau ymchwil marchnata penodol mewn cyfleoedd i ieithoedd lleiafrifol drwy farchnata a chyfathrebu, yn ogystal â lleoli brand a marchnata cynnwys.

Mae Rhydian yn cyfuno ei swydd yn yr Ysgol Reolaeth â'i swydd fel Cyfarwyddwr Marchnata yn yr asiantaeth marchnata a rheoli digwyddiadau Cazbah Cyf. lle y mae'n gweithio gydag ystod o gwsmeriaid o'r sectorau preifat a chyhoeddus, gan arbenigo yn y sectorau addysg, entrepreneuriaeth a thechnoleg. Mae'n Gymrawd y Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM) ac yn Gymrawd yr Academi Addysg Uwch.

Dr Osian Elias

Prifysgol Abertawe

@osianhe



Bywgraffiad

Mae Osian yn ddarlithydd daearyddiaeth ddynol a chanddo diddordebau eang mewn daearyddiaeth gymdeithasol a gwleidyddol ac mewn gwaith rhyngddisgyblaethol. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar iaith, cynaliadwyedd a gwyddor ymddygiadol. Mae ganddo ddiddordeb penodol ym mholisi ac yn nhraweffaith ymchwil. Mae Osian wedi cyflwyno ei waith ymchwil ar draws y DG ac Ewrop, gan ymwneud ag ystod o gyd-destunau disgyblaethol, gan gynnwys gwyddor ymddygiadol, cymdeithaseg a pholisi iaith a daearyddiaeth.

Mae ei feysydd arbenigedd yn cynnwys: cymdeithaseg a pholisi iaith, gwyddor a pholisi ymddygiadol, cynaliadwyedd, ac ymddygiadau gwyrdd.

Dr Robert Bowen

Prifysgol Abertawe

@RHB1983



Bywgraffiad

Mae Robert yn ddarlithydd mewn Entrepreneuriaeth Ryngwladol yn yr Ysgol Reolaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Mae Robert wedi gweithio ym maes addysg uwch ers 2005, gan ddechrau fel Cymrawd Addysgu ym Mhrifysgol Noaned (Nantes) yn Llydaw am chwe mlynedd. Ymunodd â'r Ysgol Reolaeth ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Medi 2017, ar ôl bod yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn hynny, lle y datblygodd a rheoli'r rhaglen Gymraeg yn yr Ysgol Reolaeth a Busnes. Hefyd, mae Robert wedi gweithio ym maes Marchnata ar gyfer rhanbarth rygbi'r Scarlets, lle y datblygodd y cynnwys ar gyfer yr amgueddfa dreftadaeth ym Mharc y Scarlets. Ar hyn o bryd, mae'n ddarlithydd gwadd yn Ysgol Fusnes Audencia yn Nantes. Bydd yn symud i ddarlithio ym Mhrifysgol Caerdydd erbyn tymor 2022–3.

Ei feysydd arbenigol yw: Rhyngwladoli busnesau bach a chanolig, Menter wledig, entrepreneuriaeth ryngwladol, marchnata sy'n seiliedig ar leoedd, a busnesau bwyd a diodydd bach a chanolig.

Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones

Prifysgol Cymru Drindod Dewi Sant

@ElinHGJ



Bywgraffiad

Mae Elin wedi gweithio ym maes ieithoedd lleiafrifol Ewrop ers tri degawd gan arbenigo ym maes y cyfryngau, y sectorau creadigol a diwylliannol, cyfieithu, polisi a chynllunio ieithyddol.

Mae'n aelod-sylfaenydd o Rwydwaith Mercator, ac ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mae hefyd yn cyfarwyddo gwaith Cyfnewidfa Lên Cymru ac yn cydweithio'n agos â llenyddiaeth ar draws Ffiniau a Wales PEN Cymru.

Mae'n amlieithog; yn ogystal â Chymraeg a Saesneg, mae'n siarad Basgeg, Catalaneg, Ffrangeg, Galisieg a Sbaeneg ac mae ganddi wybodaeth o Eidaleg, Portiwgaleg, Almaeneg a Gwyddeleg.

Elen Bonner

Myfyriwr ymchwil, Prifysgol Bangor

@elenbonner



Bywgraffiad

Mae Elen Bonner yn ymgeisydd PhD o Brifysgol Bangor ac yn ddeiliad Ysgoloriaeth Martin Rhisiart drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Fel brodor o Geredigion sydd bellach wedi ymgartrefu yng Ngwynedd, mae gan Elen ddiddordeb mawr yng nghynaliadwyedd economaidd a diwylliannol cymunedau gwledig. Mae papur cyntaf ei doethuriaeth, sydd ar ffurf tri phapur, yn adolygu'n systematig yr hyn sy'n wybyddus am ddylanwad ffactorau economaidd ar y Gymraeg. Ei bwriad ar gyfer yr ail a'r trydydd papur yw adeiladu ar y gwaith hwn trwy gynnal ymchwil cynradd, gyda'r nod o ddarparu argymhellion a fydd o ddefnydd i'r sawl sy'n creu polisïau, strategaethau ac ymyriadau sy'n dylanwadu ar wytnwch y bröydd Cymraeg.

Llŷr Roberts

Prifysgol De Cymru

@LlŷrRoberts



Bywgraffiad

Mae Llŷr yn ddarlithydd yn yr Adran Strategaeth a Rheolaeth ym Mhrifysgol De Cymru. Ef oedd golygydd e-lyfr Cyflwyniad i Farchnata a gyhoeddwyd gan y Coleg Cymraeg yn 2021. Mae'n adnabyddus am ei ran mewn datblygu astudiaethau busnes yn y Gymraeg.

Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys moeseg busnes (cyfrifoldeb cymdeithasol defnyddwyr a chorfforaethol), manwerthu (manwerthu ffasiwn, manwerthu ar-lein) a chyfathrebu marchnata (marchnata cynaliadwyedd, cyfathrebu ar-lein, marchnata cyfrwng Cymraeg a marchnata digwyddiadau).

Yr Athro Eleri Rosier

Prifysgol Caerdydd

@ProfEleriRosier



Bywgraffiad

Mae Eleri yn uwch-ddarlithydd mewn Marchnata a Strategaeth yn Ysgol Busnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, yn Aelod o'r Sefydliad Marchnata Siartredig ac yn Gymrawd yr Academi Addysg Uwch. Mae ei phrif ddiddordebau ymchwil yn cynnwys; proses strategaeth, gweithredu strategaeth, rheolwyr marchnata lefel ganolog, yn ogystal â dysgu cyfunol ac addysgu dwyieithog. Cyn hynny, mae ei gwaith wedi ymddangos yn yr *European Journal of Marketing*, yr *Industrial Marketing Management*, y *Journal of Strategic Marketing* a'r *Journal of Euromarketing*. Cyn ymuno ag Ysgol Busnes Caerdydd, cafodd brofiad diwydiannol yn y diwydiant marchnata a rheoli digwyddiadau ac mae ganddi hefyd brofiad helaeth mewn hyrwyddo marchnata yn ogystal â chynorthwyo sefydliadau bach ac elusennol gyda chynllunio marchnata a chodi arian.

Dr Rhian Thomas

Prifysgol De Cymru

<https://www.linkedin.com/in/drrhianthomas/>



Bywgraffiad

Mae Rhian yn uwch-ddarlithydd Strategaeth a Rheolaeth ym Mhrifysgol De Cymru, yn ymgynghorydd busnes (*The Commercial Toolkit*) ac yn y Gyfarwyddwr Anweithredol yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac i Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro. Mae ei phrif arbenigeddau yn cynnwys Strategaeth, Gwerthuso Busnes a Risg, Rheoli Cynigion a Rheoli Contractau. Yn flaenorol, bu Rhian yn gweithio yn y diwydiannau Awyrofod a Morol i Rolls-Royce plc., yn gweithredu'n fyd-eang mewn marchnadoedd rhyngwladol amrywiol.

CRYNHOAD O'R SESIYNAU A'R CYFLWYNIADAU

11:15 - Sesiwn 1

leithoedd Lleiafrifol a Marchnata Lle (Cadeirydd: Llŷr Roberts)

A oes manteision o ddefnyddio ieithoedd brodorol lleiafrifol wrth farchnata lle? Beth yw'r enghreifftiau rhyngwladol ac oes unrhyw wersi i Gymru a'r Gymraeg?

Cyfraniad ieithoedd lleiafrifol at greu brand unigryw wrth farchnata lle – Rhydian Harry (Prifysgol Abertawe)

Mae'r cyflwyniad hwn yn asesu'r defnydd posibl o ieithoedd lleiafrifol fel gwahaniaethydd sy'n ychwanegu gwerth at frand lle. Y nod yw casglu arfer gorau mewn rhanbarthau a gwledydd lle mae ieithoedd lleiafrifol a ddosberthir fel rhai bregus (UNESCO, 2011) ac sy'n cael eu cefnogi gan lywodraethau i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith, yn enwedig Iwerddon, Seland Newydd a Chymru.

Mae gan bob un o'r tair gwlad strategaethau hirdymor yn eu lle sy'n nodi pwysigrwydd addysg, dysgu, sgiliau dwyieithog a chyfraniad i'r hunaniaeth genedlaethol, ond mae llai o drafod ar ei botensial i gyfrannu'n ddiwylliannol ac economaidd er mwyn cael effaith gadarnhaol ar weithgareddau brandio'r wlad.

Nod yr cyflwyniad yw ategu at ymchwil ar effaith ddiwylliannol ac economaidd fyd-eang brandio lle gyda ffocws ar werth ieithoedd lleiafrifol, a chyfrannu'n ehangach at ymchwil sy'n trafod rhesymau dros ddiogelu ac adfywio ieithoedd lleiafrifol ledled y byd wrth drafod rhesymau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd..

Pop Up Gaeltacht: adfywio dinesig ac ieithyddol? – Dr Osian Elias (Prifysgol Abertawe)

Mae'r [Pop Up Gaeltacht](#) yn ddigwyddiad anffurfiol sydd wedi'i drefnu o flaen llaw i roi cyfle i siaradwyr a dysgwyr Gwyddeleg i siarad yr iaith, fel arfer mewn tŷ tafarn neu fan cyhoeddus arall. Fe'i cynhelir mewn pob math o leoliadau, ond, fel rheol mewn awyrgylch dinesig a trefol, a, gan hynny, cyferbynnu gyda'r Gaeltacht (bro Gwyddeleg ei hiaith) traddodiadol sydd yn ardaloedd gwledig lwerddon. Mae'r ffenomenon yn llwyddiannus wrth iddo hyrwyddo a brandio delwedd anffurfiol, hwyliog a dinesig i'r iaith Wyddeleg.

Mae'r papur yma'n [trafod y Pop Up Gaeltacht](#) fel enghraifft o ofod newydd a 'dilys' o ddefnydd iaith. Mae'r cyflwyniad yn ystyried sut bod y digwyddiadau newydd dros dro hyn yn arwain siaradwyr newydd i bontio rhwng siaradwyr traddodiadol a newydd. Gall fod goblygiadau pwysig i gynllunio ieithyddol a defnydd cymunedol o ieithoedd megis y Wyddeleg a'r Gymraeg o ymddangosiad poblogrwydd gofodau dros dro o ddefnydd iaith.

Gwnaed yn Llydaw: Brand rhanbarthol Model i Gymru? – Dr Robert Bowen (Prifysgol Abertawe/Caerdydd)

Mae brand Gwnaed yn Llydaw ('Produet e Breizh'/'Produit en Bretagne') yn nodweddiadol, yn enwedig yn Ffrainc, lle mae cydnabyddiaeth o'r brand yn uchel, ac mae ymchwil yn dangos fod tua 96% o bobl yn cysylltu'r brand gyda chynnyrch o safon uchel. Nid yw brand lleoliad yn gysyniad newydd, gyda brandiau tebyg yn amlwg hefyd yn Awstralia a Seland Newydd, ond mae'r brand Llydaweg yn adlewyrchu diwylliant Llydaweg, gan gynnwys yr iaith. Mae'r papur yma'n dadansoddi ymchwil ar ganfyddiadau busnesau bwyd a diod Llydaweg i'r brand ogystal ag ymchwil ar frandio rhanbarthol yng Nghymru i drafod cyfaddasrwydd datblygu brand Cymreig.

Mae Dr Robert Bowen yn ddarlithydd mewn Entrepreneuriaeth Ryngwladol yn arbenigo mewn entrepreneuriaeth wledig, yn bennaf yn y diwydiant bwyd a diod.

13:45 – Sesiwn 2

Y Cyd-destun Cymreig (Cadeirydd: Dr Robert Bowen)

Oes modd, oes pwrpas dysgu Busnes yn y Gymraeg ac mewn cyd-destun Gymreig? Beth yw'r manteision o greu cwricwlwm ac astudio themâu sydd nid yn unig yn Gymraeg ei hiaith ond yn Gymreig a rhyngwladol eu cyd-destun ac enghreifftiau? Sut gall lleoleiddio'r cwricwlwm gynorthwyo economi yn ogystal ag addysg myfyrwyr a'r gymdeithas ehangach?

Dylanwad polisiau, gweithgareddau a thueddiadau economaidd ar y Gymraeg - Elen Bonner (Prifysgol Bangor)

O fewn ei strategaeth iaith gyfredol, mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo seilwaith economaidd cymunedau Cymraeg; prawf ei bod yn cysylltu ffyniant economaidd yr ardaloedd hyn gyda'i nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2020). Fodd bynnag, yn seiliedig ar ganfyddiadau Adolygiad Systematig diweddar, dadleir bod sail y dystiolaeth sy'n cysylltu ffyniant economaidd a hyfywedd ieithyddol yn gyfyngedig a bod yna angen am fwy o waith ymchwil.

Mae Elen Bonner yn Ymgeisydd PhD o Brifysgol Bangor ac yn ddeiliad Ysgoloriaeth Martin Rhisiart drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cyflwyniad i Farchnata: datblygu gwerslyfr Cymreig yn ogystal â Chymraeg – Llŷr Roberts (Prifysgol De Cymru)

Yn 2021 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol e-lyfr [Cyflwyniad i Farchnata](#). Mae'r e-lyfr yma yn gyhoeddiad unigryw – nid yw'n gyfieithiad nac addasiad o lyfr Saesneg ac mae'n cyflwyno termau newydd i'r iaith Gymraeg mewn maes gynyddol bwysig a chynhyrfus. Ei chynulleidfa darged yw myfyrwyr prifysgol ond myfyrwyr Lefel A neu BTEC a hyd yn oed y darllenydd lleig.

Mae'r gwerslyfr hefyd yn rhoi cyd-destun Cymraeg a Chymreig i'r darllenydd o gwmnïau a busnesau cynhenid Gymreig. Wrth wneud hyn, mae'r e-lyfr yn dangos bod modd llwyddo wrth ddefnyddio'r Gymraeg ym myd anodd rhedeg busnes a hefyd, nad oes rhaid gadael Cymru i lwyddo wrth ddatblygu busnes a brand llwyddiannus.

Mae'r e-lyfr yn cynnwys cyfraniadau gan nifer fawr o aelodau Panel Busnes a Rheoli y Coleg Cymraeg a Llŷr Roberts oedd y golygydd.

Defnyddio cwmnïau Cymreig ar gyfer dysgu dulliau ymchwil a sgiliau ymarferol i fyfyrwyr busnes Cymraeg a rhyngwladol - Yr Athro Eleri Rosier (Prifysgol Caerdydd) a Dr Rhian Thomas (Prifysgol De Cymru)

Yn ogystal â dysgu hanfodion busnes i fyfyrwyr a disgyblion bydd y cyflwyniad yn nodi pwysigrwydd rhoi cyd-destun Cymreig a rhyngwladol i'r pwnc. Mae hyn yn rhoi uchelgais dealladwy a chyraeddadwy i fyfyrwyr, yn dyrchafu a normaleiddio eu hiaith a diwylliant, ac, yn rhan o ethos i gryfhau'r economi yma yng Nghymru.

Bydd y cyflwyniad yn cynnig enghreifftiau o sut defnyddiwyd astudiaethau achos o lwyddiant cwmnïau lleol a Chymreig wrth ddysgu'r maes Busnes i fyfyrwyr. Bydd hefyd yn trafod ffyrdd o ddatblygu hyn i gryfhau economi Cymru.

15:00 – Panel Trafod (Cadeirydd: Yr Athro Eleri Rosier)

Cyfle i drafod a thafoli'r gynhadledd. Ymhlith y testunau trafod gallwn drafod sut mae lleoleiddio'r cwricwlwm busnes yn helpu busnes ac economi Cymru, gwerth ariannol a diwylliannol brandio a defnyddio'r Gymraeg, a pha fath o negeseuon brandio a defnydd o'r Gymraeg sy'n gweithio orau.